Grŵp Llandrillo Menai

# Strategaeth Dysgu Digidol

2022-2025




Cynnwys


Cyflwyniad 2

Nodau Strategol Dysgu Digidol 5

Amcanion Strategol Dysgu Digidol 6

## Cyflwyniad




Mae Grŵp Llandrillo Menai wedi ymrwymo'n llwyr i sicrhau bod pob dysgwr yn cael mynediad i amgylchedd dysgu digidol modern, hyblyg, hygyrch, sy'n darparu profiad dysgu cynhwysol a chefnogol. Bydd Sgiliau Digidol yn treiddio i bob gweithle a phob swydd a nod y Grŵp yw sicrhau ein bod yn paratoi ein dysgwyr i ffynnu mewn byd digidol cynyddol gysylltiedig a chystadleuol. Mae'r Strategaeth Dysgu Digidol yn cyd-fynd yn agos â'r canlynol:

- Cynllun Strategol y Grŵp
- Fframwaith Digidol 2030 Llywodraeth Cymru
- Strategaeth Addysg Bellach a Sgiliau Jisc (2020-23)

Gwnaeth Strategaeth Technoleg Dysgu 2018-2022 y Grŵp sicrhau bod yr holl ddysgwyr yn elwa ar "ddysgu, addysgu ac asesu o ansawdd uchel." Roedd y Grŵp eisoes wedi ymrwymo i ddefnydd o

technoleg addysg, boed hynny trwy ddefnyddio amgylcheddau dysgu rhithwir, rhith-diwtora, offer fideo-gynadledda neu ddefnyddio meddalwedd dysgu ar-lein. Fodd bynnag, cafodd y pandemig effaith sylweddol ar yr amgylchedd addysgu a dysgu ac o ganlyniad daeth y Strategaeth Technoleg Dysgu yn allweddol wrth gefnogi'r trosglwyddo i addysgu, dysgu ac asesu ar-lein.

Roedd ffurfio'r Grŵp Strategol Technoleg Dysgu yn allweddol i roi'r strategaeth a'r cynllun gweithredu cysylltiedig ar waith i gefnogi staff a dysgwyr yn ystod y cyfnod hwn o drosglwyddo i ddysgu ar-lein. Roedd y pecyn yn cynnwys dyrannu adnoddau a chymorth fel bod staff a dysgwyr yn cael eu cefnogi i addasu a datblygu eu sgiliau digidol unigol i ddarparu/cael mynediad at ddysgu ar-lein.

Mae'r Egwyddorion a Safonau Dysgu ac Addysgu Hybrid yn cyfleu disgwyliadau Grŵp Llandrillo Menai gan ei staff wrth ddarparu profiadau dysgu ar-lein a oedd yn canolbwyntio ar y nodweddion craidd, rhyngweithiol a chydweithredol. Gyda'r lefel graidd yn amlinellu'r isafswm y dylai dysgwyr ei ddisgwyl o'u profiad ar-lein a'u defnydd o'r amgylchedd dysgu rhithiol, roedd disgwyl wedyn y byddai staff addysgu'n symud ymlaen i ymgorffori agweddau o'r nodweddion rhyngweithiol a chydweithredol er mwyn ennyn diddordeb dysgwyr ymhellach yn eu dysgu ar-lein. Cefnogwyd cyflwyno hyn gan raglen datblygiad staff gynhwysfawr a ddaeth i uchafbwynt mewn Cynhadledd Dysgu ac Addysgu Hybrid ar-lein (Haf 2020), a oedd yn cynnwys hyfforddiant, gweithdai ac arweiniad 1:1 i ddatblygu addysgeg dysgu ar-lein a rhannu arferion da. Bu'r gefnogaeth a'r hyfforddiant yn hynod effeithiol wrth ddatblygu sgiliau digidol staff ac mae'n parhau i fod yn nodwedd barhaus o'n hymrwymiad i'n defnydd o dechnoleg i gefnogi dysgu, addysgu ac asesu rhagorol.

Mae'r Strategaeth Dysgu Digidol hon yn cyfrannu at Gynllun Strategol cyffredinol y Grŵp a'n cenhadaeth i 'Wella Dyfodol Pobl'. Rydym wedi gweld newid diwylliannol sylweddol yn y defnydd o dechnoleg dysgu ar draws y Grŵp yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf. Mae staff a dysgwyr wedi datblygu eu hymwybyddiaeth, eu gwybodaeth, eu sgiliau a'u parodrwydd i dderbyn dysgu digidol a'n nod yw bwrw ymlaen â hyn drwy fuddsoddi yn ein staff a'n hadnoddau i gyflawni canlyniadau sy'n cefnogi ein tri nod strategol.

Nod Strategol 1: Gwireddu potensial ein holl ddysgwyr
Nod Strategol 2: Cynhyrchu gweithlu medru i gefnogi cyflogwyr
Nod Strategol 3: Hyrwyddo ein safle fel sefydliad addysg a hyfforddiant blaenllaw

Datblygwyd gweledigaeth y cytunwyd arni'n genedlaethol ar gyfer sgiliau digidol ôl-16 yng Nghymru, hyd at y flwyddyn 2030, gan Lywodraeth Cymru mewn partneriaeth â Jisc. Bydd y fenter, "Digidol 2030: Fframwaith strategol ar gyfer dysgu ôl-16 digidol yng Nghymru", yn helpu i sicrhau y bydd gan ddysgwyr ym maes Addysg Bellach y galluoedd digidol a'r hyder i lwyddo, a chefnogi economi Cymru. Mae'r strategaeth hon wedi integreiddio meysydd allweddol a nodwyd yn Digidol 2030 i'n nodau strategol dysgu digidol ni. Nod y fframwaith yw creu cyfleoedd sylweddol i ddefnyddio technoleg i wella mynediad i addysg, defnyddio dulliau cyflwyno hyblyg, cefnogi dysgwyr a gwella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd dysgu.

Ym mis Hydref 2020 lansiodd Jisc gynllun tair blynedd sy’n anelu at “ddarparu gwasanaethau digidol sy’n dyrchafu gallu’r sector addysg bellach a sgiliau i wasanaethu pobl fel dysgwyr gydol oes.” Gweledigaeth Jisc yw i ddarparwyr Addysg Bellach integreiddio technoleg ddigidol i'r ddarpariaeth; ac annog arloesi wrth ddefnyddio dulliau cynhwysol, hygyrch a dwyieithog i wella profiad y dysgwr. Bydd y strategaeth hon, sy'n seiliedig ar ymwybyddiaeth o’r sgiliau digidol sydd eu hangen i gefnogi economi Cymru, yn ein cynorthwyo i roi’r galluoedd digidol a’r hyder y bydd eu hangen ar ddysgwyr a staff i lwyddo mewn bywyd bob dydd ac yn y gwaith.

Bydd y nodau a'r amcanion strategol dysgu digidol a amlinellir yn y ddogfen hon yn cael eu cefnogi gan gynllun gweithredu blynyddol mewnol.

## Nodau Strategol Dysgu Digidol

Y pum prif elfen sy'n sail i nodau strategol Strategaeth Dysgu Digidol Grŵp Llandrillo Menai yw Arwain a Rheoli, Cyflwyno ac Asesu'r Cwricwlwm, Cefnogi Dysgu, Datblygiad Staff a Seilwaith Digidol.

**Nod 1: Arwain a Rheoli**
Meddu ar weledigaeth glir ac ymrwymiad i ddefnyddio technolegau digidol a sianeli digidol i wella dysgu a sgiliau

**Nod 2: Cyflwyno ac Asesu'r Cwricwlwm**
Dylunio cwricwlwm gan fod yn ymwybodol o arferion digidol sy'n dod i'r amlwg yn y rhaglen astudio

**Nod 3: Cefnogi Dysgu**
Sicrhau bod dysgwyr o bob cefndir a gallu yn medru gwneud y mwyaf o’u potensial trwy ddefnyddio technoleg ddigidol i gynyddu hyblygrwydd a chefnogi dysgu annibynnol

**Nod 4: Datblygiad Staff**
Gwneud defnydd effeithiol o dechnoleg i gefnogi dysgu, addysgu ac asesu rhagorol

**Nod 5: Seilwaith Digidol**
Sicrhau profiadau digidol diogel a gwydn i'r holl ddysgwyr a staff

## Amcanion Strategol Dysgu Digidol

**Nod 1: Arwain a Rheoli**
Meddu ar weledigaeth glir ac ymrwymiad i ddefnyddio technolegau digidol a sianeli digidol i wella dysgu a sgiliau

1.1. Creu diwylliant lle mae staff a myfyrwyr yn awyddus i chwilio am a mabwysiadu technolegau newydd i wella dysgu ac addysgu digidol

1.2. Bod arweinwyr yn hyderus wrth wreiddio a galluogi'r defnydd o dechnoleg ddigidol ar draws pob lefel a phob agwedd o'r cwricwlwm

**Nod 2: Cyflwyno ac Asesu'r Cwricwlwm**
Dylunio cwricwlwm gan fod yn ymwybodol o arferion digidol sy'n dod i'r amlwg yn y rhaglen astudio

2.1. Cyflwyno cwricwlwm hyblyg a chynhwysol sy'n cynnig dewisiadau dysgu hybrid

2.2. Cyfleoedd i ddefnyddio cynnwys/offer digidol ac offer realiti rhithwir a realiti estynedig (sy'n berthnasol i'r diwydiant)

**Nod 3: Cefnogi Dysgu**
Sicrhau bod dysgwyr o bob cefndir a gallu yn medru gwneud y mwyaf o'u potensial trwy ddefnyddio technoleg ddigidol i gynyddu hyblygrwydd a chefnogi dysgu annibynnol

3.1. Bydd dysgwyr yn ymwybodol o'u gallu digidol sy'n cefnogi eu rhaglen ddysgu bersonol

3.2. Bod dysgwyr yn ymgysylltu'n rhagweithiol (dan arweiniad y dysgwr) â'r llwyfan dysgu digidol ac yn ei ddefnyddio mewn ffyrdd arloesol, cynhwysol a chreadigol i gefnogi eu dysgu eu hunain a dysgu eu cyfoedion

**Nod 4: Datblygiad Staff**
Gwneud defnydd effeithiol o dechnoleg i gefnogi dysgu, addysgu ac asesu rhagorol

4.1. Yr holl staff addysgu ac asesu i dderbyn cymorth i gyflawni'r elfennau craidd a symud i'r elfennau rhyngweithiol a chydweithredol yn ein Safonau Dysgu ac Addysgu Hybrid

4.2. Hyrwyddo defnydd arloesol o Dechnoleg Dysgu i wella dysgu ac addysgu

**Nod 5: Seilwaith Digidol**
Sicrhau profiadau digidol diogel a gwydn i'r holl ddysgwyr a staff

5.1. Seilwaith digidol cadarn yn ei le i gefnogi cyfathrebu a chydweithio